# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Prif Gampws Coleg Pengwern Cambian**

**Coleg Pengwern Cambian**
**Neuadd Pengwern**
**Bodelwyddan Road**
**Y Rhyl**
**LL18 5UH**

**This report is also available in English.**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13 a 14 Chwefror 2023.

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Prif Gampws Coleg Pengwern Cambian

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir. | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion a Phlant Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Cambian Whinfell School Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg. |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8, 9 a 10 Tachwedd 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae darpariaeth breswyl Pengwern yn darparu gofal, cymorth a chyfleoedd addysgol i 20 o bobl 16 i 25 oed sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, a / neu anghenion lleferydd, iaith a / neu gyfathrebu. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn darparu gofal i bum person. Mae darparwr y gwasanaeth yn destun llwybr Gwella a Gorfodi Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac mae cyfyngiad ar dderbyniadau. Mae darparwr y gwasanaeth yn destun proses Uwchgyfeirio Pryderon Llywodraeth Cymru gyda Chyngor Sir Ddinbych, ac mae cytundeb gwirfoddol rhwng darparwr y gwasanaeth a'r Awdurdod Lleol ynghylch cyfyngu ar y nifer a dderbynnir.

Diben yr arolygiad ym mis Chwefror 2023 oedd ystyried y cynnydd a wnaed yn dilyn yr arolygiad ym mis Tachwedd 2022 a aeth i'r afael â'r Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth a'r Hysbysiad Gwella. Yn ogystal ag asesu p'un a aed i'r afael â'r meysydd i'w gwella a oedd yn ymwneud yn benodol â llesiant, gofal a chymorth, yr amgylchedd, arweinyddiaeth, a rheolaeth er mwyn creu effaith gadarnhaol ar bobl a staff gofal. Cadarnhaodd yr arolygiad ym mis Chwefror 2023 fod y bobl yn fwy diogel ac yn cael y gofal a'r cymorth cywir sy'n adlewyrchu eu hanghenion iechyd corfforol ac emosiynol. Fodd bynnag, cyflawnwyd gwelliannau gan fod y gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i bum person sydd ar gapasiti is o lawer. Mae darparwr y gwasanaeth yn parhau i gomisiynu staff gofal asiantaeth i lenwi swyddi gwag staff gofal parhaol.

Er mwyn atgyfnerthu'r gwelliannau a wnaed eisoes, rydym wedi nodi rhagor o feysydd i ddarparwr y gwasanaeth wella arnynt, a chaiff y rhain eu hadolygu yn yr arolygiad nesaf.

## Llesiant

Mae'r bobl yn trin ei gilydd, a'r staff gofal, â pharch. Cânt eu cefnogi gyda'u dysgu a'u datblygiad gan staff gofal sy'n awyddus iddynt wneud yn dda mewn bywyd. Mae gwaith paru gofalus yn golygu bod y bobl yn byw gyda'u ffrindiau ac eraill y mae ganddynt gydberthynas dda â nhw. Mae angen gwella'r broses o gasglu barn pobl sy'n byw ym Mhengwern, eu rhieni a'u cynrychiolwyr. Caiff hyn ei adolygu yn yr arolygiad nesaf.

Mae anghenion iechyd ac emosiynol y bobl yn cael eu diwallu. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion iechyd corfforol ac emosiynol y bobl. O drafodaethau â phobl broffesiynol amlddisgyblaethol, mae tîm sy'n cynnwys staff gofal a staff academaidd a chynorthwyydd gofal iechyd, sy'n eu galluogi i fonitro anghenion iechyd cymhleth y bobl. Fodd bynnag, mae angen gwella er mwyn dangos tystiolaeth bod dull amlddisgyblaethol yn mynd rhagddo. Hefyd, nid yw cynlluniau iechyd yn rhan o'r cynllun personol, ac mae angen i'r wybodaeth hon fod ar gael i staff gofal. Mae angen diweddaru cynlluniau ymddygiad cadarnhaol a'u cynnwys fel rhan o'r cynllun personol. Caiff y rhain eu hadolygu yn yr arolygiad nesaf.

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r staff gofal. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion y bobl ac yn gwybod pan fyddant yn bryderus. Mae cryfder y cydbethnasau y mae'r staff gofal wedi'u meithrin yn sichrau bod y bobl yn teimlo'n ddiogel. Mae'r tîm rheoli wedi sicrhau bod y staff gofal yn ymarfer yn unol â'r polisi diogelu a'i weithdrefnau er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac y caiff eu hanghenion eu diwallu.

Dywedodd y staff gofal wrth AGC gan fod llai o bobl yn cael gofal, mae llai o straen ar y staff gofal ac mae'r bobl sy'n weddill yn cael budd o'r amser, y gofal a'r cymorth gwerthfawr y gallant ei gynnig. Bellach, caiff y staff gofal eu dynodi i'r un bobl sy'n golygu eu bod yn cael gofal gan dîm cyson o staff sy'n ymwybodol o'u hanghenion unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn cyfathrebu ar ffurf ddieiriau; dangosodd ein harsylwadau fod y bobl yn cael eu hannog i wneud dewisiadau ac mae'r staff gofal yn deall newidiadau mewn ymddygiad ac arddulliau cyfathrebu unigol. Gellir gwneud rhagor o welliannau i ddefnyddio Makaton a darparu arwyddion neu negeseuon â lluniau yn iaith gyntaf y bobl er mwyn eu helpu i ddeall. Caiff hyn ei ystyried yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl yn mwynhau dysgu yng Ngholeg Pengwern. Mae'r cofnodion a archwiliwyd a'r trafodaethau â'r staff gofal yn dangos bod y bobl yn mwynhau mynd i'r coleg ar y safle. Maent yn dysgu'r amrywiaeth eang o bynciau sydd ar gael ar y cwricwlwm ac mae amrywiaeth eang o weithgareddau allgwricwlaidd ar gael iddynt sy'n hyrwyddo iechyd corfforol a llesiant. Pan fydd y bobl yn dangos eu bod yn bryderus yn y coleg, bydd y staff gofal yn eu hebrwng i'w tai er mwyn rhoi amgylchedd diogel iddynt setlo ynddo. Pan fydd y bobl wedi dychwelyd i'w hymddygiad arferol a'u bod yn barod, byddant yn dychwelyd i'r coleg.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal unigol gan dîm o staff gofal sefydlog ac ymroddedig. Mae'r staff gofal yn defnyddio eu cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl i'w cefnogi. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, maent yn rhoi llesiant y bobl wrth wraidd eu hymarfer, ac arsylwyd hyn drwy gydol yr arolygiad. Mae'r bobl yn gyfforddus â'r staff gofal, ac maent yn cael hwyl gyda'i gilydd. Gwelsom gydberthnasau cynnes rhwng y bobl a'r staff gofal. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi'r staff gofal a'u bod yn mwynhau eu hamser ym Mhengwern.

Caiff y bobl eu cefnogi i fynegi eu hanghenion. Dywedodd un person wrth staff gofal eu bod am ymgymryd â gweithgaredd penodol, ac ymatebodd y staff gofal yn briodol. Mae prinder staff gofal yn y gwasanaeth o hyd, ond gwnaed gwelliannau o ran sicrhau cysondeb yn y trefniadau staffio. Mae'r cyfyngiadau o ran niferoedd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, sy'n golygu bod angen llai o staff gofal. Lle caiff staff asiantaeth eu defnyddio, mae darparwr y gwasanaeth bellach yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r bobl.

Mae gan y bobl gynlluniau personol a thargedau clir sy'n realistig ac yn gyflawnadwy, ac maent yn gwneud cynnydd. Mae templedi newydd ar gyfer cynlluniau personol ac asesiadau risg wedi'u creu, er nad ydynt wedi'u hymgorffori mewn ymarfer eto. Mae'r staff gofal yn dod o hyd i weithgareddau a chyfleoedd y mae'r bobl yn eu mwynhau, sydd wedi'u teilwra i lefelau gallu amrywiol, ac maent yn cymryd rhan ynddynt. Caiff gweithgareddau eu cynllunio ac yn aml mae ffocws addysgol iddynt, er enghraifft cyllidebu ar gyfer bwyd a theithiau i leoliadau amrywiol. Nid yw asesiadau darparwyr yn rhan o'r cynlluniau personol a chânt eu cynnal gan berson nad yw'n darparu gofal a chymorth i'r bobl; rhaid i ddarparwr y gwasanaeth ddilyn Rheoliad 18 a'i ofynion. Rhaid i'r asesiad risg, y cynllun personol a'r asesiad darparwr arfaethedig gael eu hymgorffori mewn ymarfer i gefnogi staff cymorth yn eu rolau ac i ysgogi gwelliannau. Caiff y rhain eu hadolygu yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r staff gofal yn defnyddo canmoliaeth i annog ymddygiad cadarnhaol gan y bobl a'u helpu i ddeall sefyllfaoedd. Caiff yr arfer hwn ei adlewyrchu yn yr awyrgylch tawel a chysurus yn y tai. Gwelsom fod y bobl yn hapus a'u bod yn ymgysylltu â'r staff gofal yn eu tai ac ar y safle. Mae'r bobl wedi setlo ac mae'n amlwg eu bod yn mwynhau eu hamser ac yn teimlo'n ddiogel gan na chafwyd unrhyw achosion o atal yn gorfforol, cosbau nac achosion o fynd ar goll o ofal. Mae'r bobl yn cael budd o gymarebau staff gofal uchel ac mae'r lefel hon o oruchwyliaeth yn cyd-fynd â'u hanghenion a aseswyd sy'n eu helpu i ymgysylltu cymaint ag y bo modd mewn bywyd pob dydd.

Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o risgiau a bregusrwydd y bobl. Maent yn ymateb i'w hanghenion ac yn cymryd camau i leihau'r risg o newid i'r bobl. Caiff pryderon eu hadrodd i'r pennaeth gofal neu reolwyr tŷ yn ddi-oed. Ceir cyfathrebu a chydgysylltu effeithiol rhwng y staff gofal a'r staff academaidd, ac mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn cael eu diweddaru am unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon ynghylch iechyd ac anghenion diogelu'r

bobl. Mae gan y bobl gynllun rheoli risg sy'n nodi strategaethau i gefnogi staff gofal i liniaru a rheoli risg.

## Yr Amgylchedd

Ar hyn o bryd, mae Pengwern yn darparu gofal a chymorth i bum person sy'n byw mewn tri thŷ: Garden Cottage, Coach House 4, a Coach House 5. Gwnaed gwaith cynnal a chadw sylweddol i'r tai hyn. Mae gan bob tŷ reolwr tŷ sy'n gyfrifol am y gwaith rheoli o ddydd i ddydd. Mae'r pennaeth gofal yn dyrannu'r bobl i'w tai yn ôl eu cydnawsedd o ran eu hanghenion, eu diddordebau a'u haddasrwydd. Mae Walkie-Talkies ar gael ym mhob tŷ i alluogi'r staff gofal i adrodd am unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt ar unrhyw adeg o'r dydd a gofyn am gymorth ychwanegol. Mae staff gofal sy'n effro drwy'r nos i roi gofal a chymorth amserol os bydd angen.

Mae gwaith cynnal a chadw wedi'i gwblhau i Coach House 1, ac mae'n wag ar hyn o bryd. Mae Coach House 2 a 3 wrthi'n cael eu hadnewyddu. Mae'r tai y cwblhawyd y gwaith cynnal a chadw arnynt o safon dderbyniol. Caiff materion cynnal a chadw eu cofnodi mewn cofnodlyfr; fodd bynnag, ni chaiff y llyfr ei ddiweddaru'r gyson i gadarnhau a yw'r gwaith cynnal a chadw wedi'u cwblhau. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol a'r pennaeth gofal penodedig gael atebolrwydd a goruchwyliaeth dros y cofnodlyfr iechyd a diogelwch i sicrhau yr eir i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer y safle preswyl gan fod y cyfrifoldeb hwn wedi'i nodi mewn rheoliadau. Caiff hyn ei adolygu yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r safle yn ddiogel, ac mae trefniadau diogelwch ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel heb gyfaddawdu eu hawliau, eu preifatrwydd a'u hurddas. Mae giât electronig a system cod a phàs ar y brif fynedfa i Bengwern sy'n sicrhau na all pobl anawdurdodedig gael mynediad. Gall y bobl ddefnyddio'r ardal awyr agored a'r cyfleusterau campfa awyr agored, ac mae dodrefn gardd priodol ar gyfer ymlacio. Gwnaed gwelliannau er mwyn sicrhau bod y tir yn daclus, yn ddiogel ac yn hygyrch.

Mae'r prosesau rheolaidd i gynnal a chadw, gwasanaethu a phrofi cyfarpar yn darparu amgylchedd diogel i'r bobl. Ceir systemau a phrosesau i nodi risgiau i iechyd a diogelwch yn y tai. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau amgylcheddol yn cael eu dilyn gan y staff craidd ac mae hyn yn hyrwyddo iechyd a hylendid y bobl. Mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol sy'n ymwneud â thrin bwyd; golchi dwylo; a glanhau a golchi dillad yn cael eu dilyn. Mae ystafell synhwyrau rhyngweithiol wedi'i lleoli yn Coach House 5 i gefnogi pobl â'u pryderon a'u sgiliau annibyniaeth a'u helpu â'u dysgu. Efallai yr hoffai darparwr y gwasanaeth ystyried cael cyfleusterau rhyngweithiol tebyg ar gyfer y bobl sy'n byw ym Mhengwern yn eu tai eu hunain. Yn ogystal, ni chynhelir ymarferion tân yn Coach House 5. Caiff y rhain eu hadolygu yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol penodedig a'r tîm rheoli wedi gwella'r gweithdrefnau i sicrhau bod yr holl faterion sy'n ymwneud â Phengwern yn gweithio'n dda, yn benodol mewn perthynas â pharhad gofal a chymorth, a diogelu'r bobl. Mae'r tîm rheoli wedi dangos ei fod yn atebol ac yn agored i'r cyngor, y canllawiau a'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Cadarnhaodd yr arolygiad blaenorol fod yr hysbysiad gwelliant wedi'i gyflawni. Rhaid i'r tîm rheoli barhau i atgyfnerthu a sefydlu systemau a phrosesau i sicrhau bod y rhain yn cael eu hymgorffori, a'u bod yn gynaliadwy ac yn awtonomaidd yn ymarferol. Mae'r tîm rheoli yn mynd ati i fonitro ansawdd y gofal drwy ddull cydberthynas cryf.

Mae pennaeth gofal wedi'i chyflogi, sy'n brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas. Mae tri rheolwr tŷ ac arweinwyr tîm sy'n cefnogi pobl. Pan gaiff gwaith cynnal a chadw ei gwblhau i'r tai eraill ym Mhengwern, a chyn ystyried derbyn rhagor o bobl i'r gwasanaeth, bydd angen cymhwyso'r un strwythur staff er cysondeb. Mae'r tîm rheoli yn cydweithio'n dda, ac maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant y bobl. Adolygwyd y datganiad o ddiben ac mae'n disgrifio sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae angen i ddarparwr y gwasanaeth ystyried a yw'n ddiogel darparu gofal i bum person yn Coach House 5, o ystyried y gallai fod cyfanswm o 17 o bobl / staff gofal fod yn bresennol ar unrhyw adeg. Ar adeg yr arolygiad, roedd swyddi staff gwag o hyd ac mae darparwr y gwasanaeth wrthi'n recriwtio staff; fodd bynnag, roedd yn cael anhawster i recriwtio ac roedd yn parhau i weithredu â staff gofal asiantaeth. Mae gweithredu ar gapasiti is drwy gefnogi pum person yn galluogi darparwr y gwasanaeth i barhau i wella a datblygu, gan ddarparu gofal a chymorth diogel yn unol â'i ddatganiad o ddiben.

Nodir gwelliannau sylweddol yn y diwylliant, mae gan y staff gofal rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir a gwelwyd newid sylfaenol yn y modd y caiff gwaith staff gofal a Phengwern eu rheoli. Mae gan y tîm rheoli drefniadau llywodraethu cadarn ar waith ynghylch archwiliadau, diogelu a gwelliannau sydd eu hangen. Mae'r pennaeth gofal yn cydweithredu â'r awdurdod diogelu lletyol ac mae'n croesawu'r cyfle i wella ei gwybodaeth ac i weithredu pan gaiff ei chynghori i wneud hynny.

Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn fwy hyderus yn cofnodi pryderon diogelu ac yn adrodd amdanynt, sydd, yn ei dro, wedi codi safonau a gwella anghenion iechyd a diogelu'r bobl. Mae'r bobl yn fwy diogel oherwydd y systemau a'r prosesau sydd ar waith, ac mae'r arferion iechyd a diogelu yn cyd-fynd â deddfwriaeth a chanllawiau statudol. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu sy'n sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i adnabod arwyddion o niwed. Mae'r tîm rheoli wedi sicrhau trefniadau mwy cadarn i ddiogelu pobl, ac mae'r staff gofal yn gweithio gan ddilyn safonau proffesiynol. Mae'r staff gofal bellach wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent yn gweithio i god ymddygiad proffesiynol sy'n nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir er mwyn lleihau'r risg o iaith ac ymddygiad amhriodol.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a chynhelir adolygiadau rheolaidd o'u hymarfer. Mae hyn yn helpu'r staff gofal i ganolbwyntio ar feysydd datblygiad a pherfformiad. Mae'r cymorth ar gyfer y staff gofal wedi gwella, fodd bynnag, gallai amserlen o'r prosesau goruchwylio sydd ar y gweill wella hyn ymhellach ac ymgorffori ymarfer da. Ni chaiff cyfarfodydd tîm y staff gofal eu cynnal ar gyfer pob Coach House bob amser ac mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff materion eu trafod a'u cofnodi ac y cymerir camau priodol o ganlyniad i hynny. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a dewisol yn rheolaidd er mwyn meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n dda. O ganlyniad i'r cymorth a'r hyfforddiant a gaiff staff gofal, maent yn gwella eu gallu i ddeall a diwallu anghenion gofal a chymorth cyffredinol y bobl. Fodd bynnag, nid yw cyrsiau hyfforddiant sy'n ymwneud ag anghenion iechyd, gwybyddol ac emosiynol bob amser yn cael eu darparu mewn modd amserol. Dylai'r Unigolyn Cyfrifol penodedig sicrhau ei bod yn adolygu effeithiolrwydd hyfforddiant y staff gofal fel bod yr holl staff gofal, gan gynnwys y staff academaidd, yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion ac ymddygiad y bobl, yn benodol hyfforddiant sy'n ymwneud ag Awtistiaeth.

Mae darparwr y gwasanaeth yn datblygu systemau i fonitro ac adolygu gwelliannau ac i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu gwneud. Mae'r Unigolyn Cyfrifol penodedig wedi datblygu systemau ac archwiliadau dros dro i fonitro cynnydd yn ystod y misoedd diwethaf. Maent wedi gwerthuso pa gynnydd sy'n cael ei wneud, a nodi'r gwaith sydd ei angen i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Lle nad oedd cynnydd yn cael ei wneud, rhoddwyd cymorth ac arweiniad i'r tîm rheoli. Nawr, mae angen rhoi systemau hirdymor a chynaliadwy ar waith a'u cynnwys wrth redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r adnoddau sydd ar gael wedi gwella, a cheir tystiolaeth fod diffygion yn cael eu cydnabod ac yr ymdrinnir â nhw. Mae pryderon dienw ynghylch AGC wedi lleihau'n sylweddol, ac mae'r staff gofal yn dilyn y broses gywir yn unol â pholisi diogelu a gweithdrefnau darparwr y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/04/2023